[redacted]

Ebrill 13eg 2023

Rheolwr Blaen-gynllunio, Lle a Chynaliadwyedd,
Adran Lle a Seilwaith,
3 Heol Spilman,
Caerfyrddin.
SA31 1LE

Parthed: Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033
Sylwadau 2ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo

Annwyl Reolwr,

Mae 2 argymhelliad ar gyfer pentref Porth-y-rhyd ac ymatebaf yn gryno iddynt isod.

1. **Newid y ffin i gynnwys y tir ger Tŷ Cynheidre ar gyfer ei ddatblygu.**
   Yn anffodus, nid oes manylion ar gael ar yr adeg hon yn y broses parthed y math o ddatblygiad, ei faint, nifer tai, math o dai ayyb.
   O ganlyniad nid oes dewis gennyf ond **GWRTHWYNEBU**. Gofynnaf yn garedig am gael cyfle i ymateb eto unwaith y bydd manylion ar gael i'r cyhoedd am y cynlluniau ar gyfer y tir hwn.

2. **SuV20/h1 – tir ger Fferm Llwyn Henri**

   Rwy'n **gwrthwynebu** am y rhesymau canlynol:

- Nid oes manylion ar gael i'r cyhoedd ar yr adeg hon yn y broses parthed y math o ddatblygiad nac ychwaith nifer y tai. Mae'r 5+ braidd yn amwys a gwyddom o'r gorau sut all y niferoedd chwyddo. (e.e. Lovells 32 – 52 a safle arfaethedig Wernfraith 27 – 42 ).
- **Gwrthodwyd** y safle hwn yn y gorffennol yn dilyn misoedd lawer o gynnal profion ac asesiadau gwahanol, o ymgynghori gyda'r asiantaethau perthnasol ac o goladu ffeiliau o dystiolaeth o amrywiol ffynonellau.
  Gwrthod oedd barn yr Ymgynghorydd Cynllunio annibynnol ar y pryd. Gwrthod oedd argymhelliad yr Adran Blaen-gynllunio. Gwrthod oedd dyfarniad yr Arolygydd Annibynnol yn dilyn Gwrandawiad Cyhoeddus a dyna oedd penderfyniad y Cyngor Sir yn seiliedig ar broses cadarn a rhesymegol.
- Rwy'n llwyr barchu hawl yr Ymgeisydd i ail gyflwyno'r safle ond er i'r cae gael ei docio y tro hwn mae rhannau ohono yn dal o fewn Parthau Llifogydd C2 a B ac nid yw newid lleoliad mynedfa yn cael gwared o'r holl rwystrau ac ardrawiadau dwys eraill.
- Mae prif bibell ddŵr yn agos i'r cae. Hyd yma ni dderbyniais ateb i gwestiwn syml:
  Faint o le sydd angen ei gadw'n glir o boptu'r bibell fel clustogfa neu Goridor Diogelwch rhag datblygiad?
- Mae llawer o broblemau dwys dŵr glaw a'r system garthffosiaeth. Teimlaf yn aml bod y drol yn cael ei roi o flaen y ceffyl. Oni ddylid uwchraddio'r isadeiledd cyn caniatáu datblygiadau. Fel arall gall yr ardrawiad fod yn hunllefus fel y gwelwyd eisoes yn y pentref hwn.

**Cofrestraf fy ngwrthwynebiad** i ddyrannu'r cae hwn yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033 a dymunaf siarad yn Gymraeg mewn sesiwn gwrandawiad yr Archwiliad Cyhoeddus.

3. SAFLE WERNFRAITH
   Rhyddhad yn wir oedd gweld bod y safle hwn wedi cael ei **ddad-ddyrannu** ac na fydd yn cael ei gynnwys yn y fersiwn diwygiedig o'r CDLl 2018 – 2033.

   Yn anffodus, mae risg y caiff ei goncritio gyda datblygiad o 42 o anheddau ymhell cyn i'r CCDLl hwn ddod i rym ac y bydd yn cael ei gategoreiddio fel un o'r Hap-safleoedd. Rhyfedd o fyd!

Yn gywir,
Mair Evans [redacted]